**Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd**

Ym mis Mawrth 2014, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd. O dan y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG. Maent yn ystyried ystod eang o wybodaeth i helpu i nodi unrhyw broblemau er mwyn llunio'r asesiad a sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol.

O dan y trefniadau, cytunwyd y byddai statws uwchgyfeirio pob un o sefydliadau y GIG yn cael ei gyhoeddi.

Mae pedair lefel uwchgyfeirio yn y fframwaith:

- Trefniadau arferol
- Monitro uwch
- Ymyrraeth wedi'i thargedu
- Mesurau arbennig

| Sefydliad | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Ymyrraeth wedi'i thargedu |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Trefniadau arferol |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Mesurau arbennig |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Ymyrraeth wedi'i thargedu |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | Monitro uwch |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Ymyrraeth wedi'i thargedu |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Trefniadau arferol |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | Trefniadau arferol |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Trefniadau arferol |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Trefniadau arferol |

**9 Ionawr 2019**